Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd
# Meddygfa Princess Street
# Dyddiad y gweithgarwch: 16 Mehefin 2021

Dyddiad cyhoeddi: 03 Awst 2021





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-80195-754-0

© Hawlfraint y Goron 2021

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Feddygfa Princess Street, Gorseinon fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Meddygfa Princess Street yn rhan o'r gwasanaethau meddygon teulu a ddarperir yn yr ardaloedd a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â'r Uwch-bartner Meddyg Teulu a Rheolwr y Practis ar 16 Mehefin 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

1. Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19? Beth yw cynllun y practis ar gyfer dychwelyd i'r lefelau gwasanaeth a welwyd cyn COVID-19?

2. Pa mor effeithiol y gall y gwasanaeth gael gafael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach a gwasanaethau eraill megis timau iechyd meddwl, gofal eilaidd a gofal y tu allan i oriau ar hyn o bryd?

3. Pa newidiadau sydd wedi'u gwneud yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau y caiff safonau atal a rheoli heintiau eu cynnal?

4. Sut mae'r gwasanaeth yn sicrhau y gall cleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed/wynebu risg) gael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel o ran amgylchedd y practis a threfnu apwyntiadau.

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- asesiadau risg diweddar;
- y polisi asesu risg;
- yr archwiliad gwastraff.

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi aros ar gau i'r cyhoedd ar ddechrau pandemig COVID-19. Trefnodd y practis i'r cleifion gael ymgyngoriadau dros y ffôn. Staff y dderbynfa fyddai'n delio â'r galwadau a meddyg teulu fyddai'n eu brysbennu. Byddai unrhyw gleifion yr oedd angen iddynt weld clinigydd wyneb yn wyneb yn mynd i'r practis drwy apwyntiad ymlaen llaw ac yn gorfod aros yn eu car hyd nes iddynt gael eu galw.

Er mwyn lleihau'r mynd a dod yn y practis, dywedwyd wrthym ei fod yn defnyddio ffenestr agored wrth ochr yr adeilad er mwyn i'r staff siarad â'r cleifion a'u cynorthwyo. At hynny, cododd y practis ddwy babell dros dro yn y maes parcio. Gwnaeth y pebyll alluogi'r tîm clinigol i weld y cleifion wyneb yn wyneb heb fod angen mynd i mewn i'r safle.

Gwelsom fod rhai asesiadau risg wedi'u cynnal a bod polisïau a gweithdrefnau wedi'u diweddaru er mwyn adlewyrchu gofynion ychwanegol pandemig COVID-19.

Gwelsom fod y practis wedi adolygu'r asesiad risg yn ddiweddar a oedd yn cynnwys asesiadau amgylcheddol, gweithio ar eich pen eich hun, tân ac iechyd, diogelwch a llesiant y staff ac ymwelwyr â'r practis.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn darparu gwasanaethau i gleifion sy'n byw mewn cartrefi gofal a bod ymweliadau wedi parhau drwy gydol y pandemig. Dywedwyd wrthym y bydd y meddygon teulu yn dilyn gweithdrefnau'r cartref gofal wrth fynd i mewn.

Dywedodd Rheolwr y Practis wrthym fod yr amgylchedd yn cael ei fonitro'n ddyddiol.

Canmolodd yr Uwch-bartner Meddyg Teulu a Rheolwr y Practis y staff yn fawr am y ffordd y maent wedi ymateb i anghenion y practis, y cleifion a'r ffordd y maent wedi cefnogi ei gilydd yn ystod pandemig COVID-19.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Dywedwyd wrthym fod ymweliadau â chartrefi wedi parhau drwy gydol y pandemig. Caiff pob achos ei asesu'n unigol a chadarnhawyd bod digon o gyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael. Fodd bynnag, nid oes unrhyw weithdrefn ysgrifenedig nac asesiad risg ar waith.

Dylai Rheolwr y Practis sicrhau bod gweithdrefn ar gyfer ymweld â chartrefi yn cael ei datblygu, ynghyd ag asesiadau risg ffurfiol.

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gofynnwyd i Reolwr y Practis a oedd yr holl staff wedi cael asesiad risg COVID-19 manwl[1] er mwyn asesu'r risgiau personol o ganlyniad i barhau i gyflawni eu rôl yn ystod pandemig COVID-19. Cadarnhaodd Rheolwr y Practis fod y staff heb gael asesiad risg ysgrifenedig ffurfiol.

Dylai Rheolwr y Practis sicrhau bod yr holl staff yn cael asesiad risg COVID-19 manwl, y dylid ei gadw ar ffeiliau'r staff i ddangos ei fod wedi'i gwblhau a'i adolygu fel y bo angen.

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- polisïau rheoli heintiau cyffredinol a pholisïau penodol i COVID-19;
- protocol golchi dwylo a hylendid dwylo;
- taflen hylendid dwylo i'r staff;
- polisi hylendid dwylo y staff;
- taflenni i'r cyflogeion: hylendid dwylo y staff;
- protocol rheoli heintiau PPE;

[1] 'Datblygwyd yr Adnodd Asesu Risg er mwyn helpu pobl sy'n gweithio yn y GIG ac ym maes Gofal Cymdeithasol yng Nghymru i weld a ydynt yn wynebu risg uwch o ddatblygu symptomau mwy difrifol os byddant yn dod i gysylltiad â feirws COVID-19.

- hyfforddiant PPE;
- archwiliadau o restrau gwirio rheoli heintiau misol;
- amserlenni / archwiliadau glanhau.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom fod polisi ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau a pholisi penodol i COVID-19. Nodwyd bod y tîm wedi cael diweddariadau rheolaidd drwy e-bost er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r canllawiau neu arferion.

Cawsom wybod bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn asesu a rheoli'r risg o haint. Gwelsom dystiolaeth bod archwiliad rheoli heintiau wedi'i gwblhau'n ddiweddar heb unrhyw gamau gweithredu na gwelliannau wedi cael eu nodi.

Cadarnhaodd Rheolwr y Practis hefyd fod mwy o lanhau yn digwydd a bod defnydd da yn cael ei wneud o gyfarpar diogelu personol (PPE), gyda digon o gyflenwadau a oedd yn cael eu monitro yn rheolaidd.

Dywedwyd wrthym fod un o nyrsys y practis wedi rhoi hyfforddiant i'r staff ar sut i reoli heintiau a defnyddio PPE yn gywir, gan gynnwys ei wisgo a'i ddiosg, a'i waredu'n ddiogel.

Dywedwyd wrthym hefyd fod gan y practis ystafell arbennig, ar wahân i'r brif ardal i gleifion, er mwyn ynysu cleifion pe bai angen, a bod system un ffordd ar waith.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom archwilio sut mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda thimau (neu wasanaethau) gofal sylfaenol eraill a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- cynllun parhad busnes;
- gofynion hyfforddi.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedwyd wrthym fod lefelau staffio wedi cael eu rheoli'n dda yn ystod y pandemig, a chadarnhaodd Rheolwr y Practis nad oedd unrhyw swyddi gwag. Mae un o'r meddygon teulu ar gyfnod mamolaeth ar hyn o bryd ac mae ei sesiynau'n cael eu cyflenwi gan ddau feddyg locwm.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd clwstwr[2] rheolaidd, sy'n cynnwys pedwar practis lleol, wedi parhau yn ystod y pandemig. Cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn yn rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams ac mae un o'r meddygon teulu a Rheolwr y Practis yn eu mynychu.

Dywedwyd wrthym na chafodd y practis unrhyw broblemau yn cael gafael ar wasanaethau y tu allan i oriau yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, cafodd rhai pryderon eu codi mewn perthynas â chael gafael ar rai gwasanaethau gofal eilaidd, fel iechyd meddwl, heb unrhyw feddyg ymgynghorol cysylltiedig ar waith yn ystod y pandemig. Mae'r bwrdd iechyd wedi mynd i'r afael yn uniongyrchol â'n pryderon mewn perthynas â hyn.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod cyfarfodydd tîm ffurfiol wedi cael eu gohirio drwy gydol y pandemig. Cawsai unrhyw newidiadau a diweddariadau pellach i bolisïau a gweithdrefnau eu hanfon at y staff drwy e-bost.

Dylai Rheolwr y Practis sicrhau bod cyfarfodydd tîm ffurfiol yn cael eu hadfer.

Gwelsom dystiolaeth bod y practis wedi adolygu a diweddaru rhai polisïau allweddol yn sgil pandemig COVID-19. Roedd wedi diweddaru ei gynllun parhad busnes, ei bolisi rheoli pandemig a'i bolisi atal a rheoli heintiau. Fodd bynnag, nid oedd cofnod yn cael ei wneud o fersiynau gwahanol y polisïau ac nid oedd dyddiad adolygu yn cael ei nodi ychwaith.

Dylai rheolwr y practis sicrhau bod hyn yn digwydd ar gyfer pob polisi a gweithdrefn. Dylai Rheolwr y Practis hefyd sicrhau bod system ar waith i ddangos bod yr holl staff wedi darllen a deall y polisïau a'r gweithdrefnau.

Dywedodd yr Uwch-bartner wrthym nad oedd unrhyw gyfarfodydd Dadansoddiad o Ddigwyddiad Arwyddocaol ffurfiol wedi'u cynnal yn ystod y pandemig. Mae cyfarfodydd Dadansoddiad o Ddigwyddiad Arwyddocaol yn annog y tîm cyfan sydd ynghlwm wrth yr achos neu'r digwyddiad i gael trafodaeth gefnogol gyda'r nod o ddefnyddio'r broses i alluogi myfyrio a dysgu o'r digwyddiadau hynny i wella gofal cleifion. Cytunodd yr uwch feddyg teulu i adfer y cyfarfodydd hyn yn syth.

Dylai Rheolwr y Practis sicrhau bod cyfarfodydd Dadansoddiad o Ddigwyddiad Arwyddocaol bellach yn cael eu hadfer yn syth.

---

[2] Ystyr **Clwstwr** yw grŵp o feddygon teulu sy'n gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau yn lleol. Caiff **Clystyrau** eu pennu gan Fyrddau Iechyd Lleol unigol GIG **Cymru**. Mae meddygon teulu yn y **Clystyrau**'n chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwaith parhaus Rhwydwaith (iechyd) Ardal.

Cawsom wybod hefyd gan Reolwr y Practis ei fod yn aros am gymeradwyaeth y grŵp clwstwr ar gyfer e-ddysgu i'w ddarparu drwy ddarparwr hyfforddiant cymeradwy. Cadarnhaodd Rheolwr y Practis y bydd unrhyw hyfforddiant gorfodol y mae angen i'r staff ei adnewyddu yn cael ei drefnu'n ddi-oed.

Rhaid i Reolwr y Practis roi copi o'r cynllun hyfforddiant gorfodol diwygiedig i AGIC ac, o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd hwn, roi diweddariad arall i AGIC mewn perthynas â'r cyfraddau cwblhau ar gyfer hyfforddiant gorfodol.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Meddygfa Princess Street

Dyddiad y gweithgarwch: 16 Mehefin 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwiriad Ansawdd, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Rhif Cyfeirnod | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Dylai Rheolwr y Practis sicrhau bod gweithdrefn ar gyfer ymweld â chartrefi yn cael ei datblygu, ynghyd ag asesiadau risg ffurfiol. | Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol | Cafodd yr asesiad risg ei gwblhau a'i ddosbarthu i feddygon teulu, y parafeddyg a'r nyrs i'w galluogi i'w gwblhau wrth ymweld â chartrefi. | Michael Rimmer | Yn syth |
| 2 | Dylai Rheolwr y Practis sicrhau bod yr holl staff yn cael asesiad risg COVID-19 manwl, y dylid ei gadw ar ffeiliau'r staff i ddangos ei fod wedi'i gwblhau a'i adolygu fel y bo angen. | Hybu, Diogelu a Gwella Iechyd | Mae Asesiad Risg COVID-19 wedi'i gwblhau a'i ddosbarthu i'r holl staff drwy e-bost, gan ofyn am gadarnhad bod y camau gweithredu wedi'u cwblhau | Michael Rimmer | Yn syth |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3 | Dylai Rheolwr y Practis sicrhau bod cyfarfodydd tîm ffurfiol yn cael eu hadfer. | Llywodraethu | Bydd cyfarfodydd ag uwch-aelodau o'r staff yn cael eu cynnal bob wythnos a bydd y wybodaeth berthnasol yn cael ei dosbarthu i'r holl staff. Bydd cyfarfodydd staff llawn yn dechrau pan fydd Sesiynau Amser Dysgu Wedi'u Neilltuo yn cael eu hadfer. | Michael Rimmer | Yn syth a thua mis Medi |
| /4 | Dylai Rheolwr y Practis sicrhau bod pob polisi a gweithdrefn yn cynnwys dyddiad adolygu a rhif y fersiwn. Dylai Rheolwr y Practis hefyd sicrhau bod system ar waith i ddangos bod yr holl staff wedi darllen a deall y polisïau a'r gweithdrefnau. | Llywodraethu | Mae'r protocolau wedi'u diweddaru.<br><br>Mae gan y system e-bost system sy'n cadarnhau bod y staff wedi darllen eu negeseuon e-bost. Byddaf yn monitro hyn yn rheolaidd ac yn cysylltu â'r rhai sydd heb ddarllen y wybodaeth. | | |
| 5 | Dylai Rheolwr y Practis sicrhau bod cyfarfodydd Dadansoddiad o Ddigwyddiad Arwyddocaol bellach yn cael eu hadfer yn syth. | Gwella Ansawdd | Caiff y pwnc hwn ei ychwanegu at agenda cyfarfodydd misol y partneriaid.<br><br>Cafodd Dadansoddiadau o Ddigwyddiadau Arwyddocaol eu cwblhau yr wythnos sy'n dechrau 12/07/2021 | Michael Rimmer | Yn syth |
| 6 | Rhaid i Reolwr y Practis roi copi o'r cynllun hyfforddiant gorfodol diwygiedig i AGIC ac, o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd hwn, roi diweddariad arall i AGIC mewn perthynas â'r cyfraddau cwblhau ar gyfer hyfforddiant gorfodol. | Y Gweithlu | Mae'r cynllun hyfforddiant ynghlwm<br><br>Mae'r wythnosau sy'n dechrau 9/8, 16/8 a 30/8/2021 wedi'u lliwio'n llwyd oherwydd gwyliau blynyddol y staff.<br><br>Bydd y staff yn rhoi gwybod i mi | Michael Rimmer | Yn syth |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | pan fyddant wedi cwblhau'r cyrsiau drwy roi eu tystysgrif gwblhau i mi y gellir ei hychwanegu at eu ffeil staff. | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Michael Rimmer

Dyddiad: 26/07/2021